

Cymuned Bach!

Gobaith




Penblethau Gemau
Lliwio Creft
Gweddion Stori



Stori Noa

Yn defnyddio Beibl eich hun darllenwch Stori Noa.

Os nad oes gennych chi Beibl rydym ni wedi recordio'r stori yn defnyddio beibl.net 365 o storïau o'r Beibl.



Rydym wedi dewis stori Noa ar gyfer Cymuned Bach wythnos yma achos mae'r stori yn stori am GOBAITH. Oherwydd hyd yn oed fod Duw wedi danfon llifogydd i cael gwared o'r ddrygioni, wnaeth e hefyd danfod enfys fel addewid gweledol ei fod e byth yn mynd i dinistrio'r byd eto.

Mae'r enfys yn symbol mae lawer o bobl yn ddefnyddio pan yn siarad am obaith yn enwedig yn yr amser yma pan mae angen obaith fod popeth yn mynd i wella a ddychweled i rheolaidd-dra.

A ydych chi wedi creu enfys i rhoi yn eich ffenest eto fel rhan o'r obaith y fydd popeth yn wella? Os na beth am meddwl am creu un? A os ydych chi wedi creu un yn barod beth am ychwanegu pennill y beibl sy'n atgoffa ni am addewid Duw fod obaith a fydd popeth yn wella.

Mae Genesis 9:13 yn dweud "Dw i'n rhoi fy enfys yn y cymylau, a bydd yn arwydd o'r addewid dw i wedi'i wneud gyda'r ddaear."

Cerddoriaeth



**Can Saesneg: All
Through History by
Nick & Beckv Drake**



**Can Saesneg: Hope by
All Star Kids Club**



Gweddi

Mae Duw yn gofalu am bob un ohonom

Pu'n a ydym yn fawr neu'n fach,
Pu'n a ydym yn fyr neu'n dal,
Mae Duw yn gofalu am bob un
ohonom.

Pu'n a ydym yn dywyll neu'n olau,
Pu'n mae gennym gwallt cyrlog neu
syth,
Mae Duw yn gofalu am bob un ohonom.

Pu'n a ydym yn gyflym neu'n araf,
Pu'n a ydym yn cyntaf neu'n olaf,
Mae Duw yn gofalu a bob un ohonom.

Nid oes dau o bobl yn hollol yr un fath,
Ond mae Duw yn adnabod bob un o'i
blant wrth ei enw a...
Mae Duw yn gofalu am bob un ohonom.

Pu'n a ydym yn dawel neu'n hoffi
gweiddi,
Pu'n a ydym yn hoffi aros mewn neu
mynd allan,
Mae Duw yn gofalu am bob un
ohonom.

Gweddi Creadigol

Helfa Gweddi'r Enfys wedi cyfieithu o warwickbaptists.org

Edrychwch o amgylch y ty i ffindio rhywbeth ar gyfer bob un o'r lliw isod. Dyma gweddi yr ydych yn gallu ddweud ar gyfer bob lliw wrth i chi ffindio nhw.

COCH

Diolch, Duw, am eich fod yn caru ni ac achos rwyf ti yna trwy'r amser.

OREN

Annwyl Duw, plis rhowch cymorth i ni i fod yn amyneddgar, i aros ac i wrando i chi ac i fod yn ufudd wrth i ni aros am yr argyfwng yma i orffen.

MELYN

Annwyl Duw, plis helpwch y bobl sy'n ofnus. Gad i nhw adnabod heddwch perffaith chi sy'n gael gwared yr holl ofn.

GREEN

Annwyl Duw, plis edrychwch ar ol y bobl sy'n sal, rhowch y driniaeth a'r help i nhw i adael i nhw wella, danfonwch eich pŵer iachadwriaeth i mewn i'r holl byd.

GLASS

Annwyl Duw, plis amddifynnwch pawb sy'n gweithio am GIG, diolch am bopeth mae nhw'n ei wneud i amddifyn ni.

PORFFOR

Dioch, Duw, ein fod yn blant Brenin y Brenhinoedd. Diolch, hyd yn oed fod yn byw drwy amser dirys rydym yn gallu ymddiried ynoch chi ac rydym yn weddio y fydd eich deyrnas yn dod.

PINK


Diolch, Duw, ein fod yn adnabod y byddwch yn arwain ni drwy'r argyfwng i diogelwch ar ochr arall yn union fel y wnaethoch amddifyn Noa a'i deulu ac arwain nhw drwy'r llifogydd.



Bible Pathway Adventures

CROSSWORD

NOAH'S ARK



ACROSS

- 2) Rain fell on the earth for _____ days.
- 5) "The _____ were on the earth in those days." (Gen 6:4)
- 6) Noah made this as soon as he left the Ark.
- 9) On the Ark, there were _____ of every clean animal.
- 10) What type of leaf did the dove bring back?

DOWN

- 1) God told Noah to build this.
- 2) "The _____ of the great deep were broken up.." (Gen 7:11)
- 3) Noah was a _____ man.
- 4) How many sons did Noah have?
- 7) On the Ark, there were _____ of every kind of unclean animal.
- 8) A sign in the sky that Yahweh will never flood the earth again.
- 11) How many people entered the Ark?

For more free Bible resources and Teacher Packs including coloring pages, worksheets, quizzes and more visit our website at:
www.biblepathwayadventures.com

Crefft

Cwmwl Enfys

Bydd Angen: Un darn o carden gwyn; Stribedi o riban lliwgar (gall ddefnyddio papur lliw neu papur sidan yn lle); Pen; Sisiwrn; Glud.

Cyfarwyddiadau

1. Mae angen creu siap cwmwl mas o'r darn cerdyn gwyn a'i torri allan
 2. Ysgrifennwch y penod o Genesis 9:13 ar y cwmwl *"Dw i'n rhoi fy enfys yn y cymylau, a bydd yn arwydd o'r addewid dw i wedi'i wneud gyda'r ddaear."*
 3. Addurnwch y cwmwl mewn unrhyw ffordd yr ydych chi eisiau.
 4. Torrwch darn hir o bob wahanol riban sydd gennych.
 5. Gludwch y ribannau i cefn y cwmwl.
-

Ystyriaethau

Mae stori Noa yn gyffrous iawn tan ein bod yn cyrraedd Genesis 7. Pan rydym yn cyraedd y pwynt yma mae'r stori yn mynd yn diflas gyda lawer o wybodaeth ffeithiol.

Ond mae yna un peth sy'n diddorol iawn yn fy marn i a hynny yw oedran Noa wrth iddo mynd i mewn a dod allan o'r arch. Roedd Noa yn 600 mlynedd, 2 mis a 10 diwrnod o oed pan aeth i mewn i'r arch, a pan ddaeth Noa allan o'r arch roedd yn 601 mlynedd, 2 mis a 27 diwrnod o oed. Mae hyn yn meddwl roedd Noa ar yr arch am 1 blwyddyn a 17 diwrnod.

Mae hynny yn amser hir i fod mewn lle eithaf fach, rhywbeth y gallwn ni i gyd uniaethu ag ef ar y funed. Ond... doedd gan Noa dim teledu, ffilmiau, gemau, ffon symudol neu ardd. Doedd ganddo dim byd i wneud yn ei amser ar yr arch ond am ofalu am yr anifeiliaid.

Dydy'r beibl ddim yn dweud unrhywbeth i ni am teimladau Noa wrth iddo fod ar yr arch. Falle weithiau roedd yn teimlo fel roedd Duw wedi anghofio ef. Ond roedd Noa yn ymddiried yn Duw ac felly roedd gan Noa GOBATH.

Yn yr amser argyfwng yma falle mae'n teimlo fel bod Duw wedi anghofio amdano ni. Os ydych yn teimlo fel hyn edrychwch eto ar stori Noa. Mae Genesis 8:1 yn dweud "Ond doedd Duw ddim wedi anghofio Noa." Pan rydym yn darllen hwn rhaid i ni cofio fod Duw heb anghofio Noa neu wedi anghofio ei addewid iddo. Wnaeth Duw addo i Noa y bydd yn achub fe a'i teulu o'r llifogydd yn dyna a wnaeth.

Felly ar y dyddiau pan rydych chi'n teimlo'n diflas ac yn credu fod Duw wedi anghofio chi. Meddyliwch yn ol i Genesis 8:1 a byddwch yn gwybod fod Duw heb anghofio chi. Rhaid cael GOBATH a byddwn i gyd yn dod trwyddo hwn yn y diwedd.

Cwis

1. Pam nad oedd y byd yn denyg i'r hyn ydoedd pan gafodd ei greu gan Dduw?
2. Beth benderfynodd Duw ei wneud?
3. Pwy gafodd ffafr gan Dduw?
4. Beth ddywedodd Duw wrtho am ei wneud?
5. Sut roedd Noa'n gwybod sut i wneud hyn?
6. Pwy gafodd fynd i mewn i'r arch?
7. Wedi i Noa gael pawb i mewn i'r arch, beth wnaeth Duw?
8. Ar ol i'r glaw beidio, beth anfonodd Noa allan?
9. Sut roedd Noa'n gwybod bod y tir wedi dechrau ymddangos?
10. Beth wnaeth Noa ar ol dod allan o'r arch?
11. Beth addawodd Duw?
12. Beth roddodd Duw fel arydd o'i addewid?

ATEBION YN Y BEIBL

Atebion o'r cwis ar dydd Sul y pasg.

1: Mewn ogof mewn gardd; 2: Yn ofnus ac yn drist; 3: Y Saboth; 4: Bod y garreg fawr ar draws drws y bedd wedi ei symud; 5: Bod Iesu wedi dod yn ol yn fyw; 6: Am farwolaeth Iesu a'r hanesion ei fod wedi atgyfodi; 7: Eglurodd pam roedd yn rhaid i Iesu farw; 8: Mai Iesu ei hun oedd e; 9: Iesu; 10: Thomas; 11: Pedr; 12: I ddweud wrth bawb amdano ef.

